



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gymunedol Pentrefoelas
Pentrefoelas
Betws Y Coed
Conwy
LL24 0LE**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2015

Cyd-destun

Mae Ysgol Gymunedol Pentrefoelas wedi ei lleoli mewn pentref gwledig ar yr A5 rhwng Betws y Coed a Chorwen. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Sir Conwy. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r pentref a'r ardal wledig gyfagos.

Daw rhan fwyaf y disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Derbynnir disgyblion i'r ysgol fel plant oed meithrin yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed cyn iddynt ddechrau yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed. Mae 26 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ac fe'u haddysgir mewn dau ddsbarth oed cymysg.

Nid oes disgyblion yn yr ysgol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 13% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes disgybl a datganiad yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2010. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Ionawr 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pentrefoelas yn 2014-2015 yw £10,170. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £15,278 a'r lleiafswm yw £3,190. Mae Ysgol Pentrefoelas yn yr ail safle o'r 59 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Bod ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn
- Bod cyfartaledd presenoldeb yr ysgol yn gyson dda
- Bod yr athrawon yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion
- Bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgu am Gymru a'r iaith Gymraeg yn gadarn iawn
- Bod yr athrawon i gyd yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymhell disgyblion i ddysgu
- Bod gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion
- Bod yr ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- Bod yr ysgol yn gymuned ofalgar a hapus ble mae'r disgyblion yn mwynhau eu profiadau addysgol

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth glir a'i bod yn llwyddo i'w rhannu'n effeithiol gyda holl randdeiliaid yr ysgol
- Bod aelodau'r corff llywodraethol yn gweithredu'n dda fel ffrindiau beirniadol
- Bod ganddi drefniadau effeithiol ar gyfer hunan arfarnu
- Bod gan y cynllun datblygu ffocws clir ar wella safonau'r addysgu a'r dysgu
- Bod yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid
- Bod ganddi weithdrefnau addas ar gyfer rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol y staff
- Bod ganddi ystod briodol o adnoddau sy'n cael eu rheoli yn dda i gefnogi'r dysgu
- yr ysgol yn darparu gwerth da am arian

Argymhellion

- A1 Gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu her gyson i'r disgyblion mwy abl
- A3 Sicrhau bod y targedau a nodir yng nghynllun datblygu'r ysgol yn feintiol a chlir a bod arweinwyr yn eu defnyddio'n briodol i arfarnu cynnydd

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae safon medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn addas ar gyfer eu hoed ar fynediad i'r ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg, gan ddefnyddio geirfa eang sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau a'u diddordebau. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae bron pob disgybl ar frig yr ysgol yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan amrywio'u sgwrs yn gwbl naturiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r rhan fwyaf yn barod i fynegi barn ac mae'r mwyafrif yn cefnogi'r farn drwy resymu'n ddilys.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn darllen â chywirdeb, rhuglder a mynegiant. Mae'r mwyafrif yn darllen yn ddiymdrech ac yn arddangos gwir fwynhad wrth wneud hynny. Mae bron pob disgybl yn defnyddio ystod briodol o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd ac wrth bennu ystyr. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall bron pob un drafod cynnwys testun yn ystyrion gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol gan ddefnyddio strwythur brawddegau addas ac atalnodi sylfaenol yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ansoddeiriau a berfau'n gelfydd i gyfoethogi eu gwaith; er enghraifft wrth ysgrifennu ymson yn seiliedig ar chwedl Gelert.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg ac mae eu dealltwriaeth o destun yn dda. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn trafod cynnwys y testun a chymeriadau mewn modd aeddfed. Ar draws y cyfnod, mae mwyafrif yn cywain gwybodaeth am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell yn hyderus. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ar drychineb Aberfan.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio ystod addas o batrymau brawddeg yn gywir ac yn dangos gafael gynyddol o gywirdeb ieithyddol ac atalnodi. Mae'r mwyafrif yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gofnodi hanes un o gymeriadau hanesyddol lleol, sef Tomos Prys Plas Iolyn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio geiriau ac ansoddeiriau i greu effeithiau yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw'r disgrifiad o wisgoed yn oes y tywysogion. Ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn daclus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu defnyddio strategaethau rhif syml yn gywir yn eu gwaith. Gall llawer lunio graff bar syml gydag arweiniad a thynnu gwybodaeth berthnasol ohono. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio uned safonol gywir wrth fesur hyd a phwysau gwrthrychau, er enghraifft wrth ddilyn rysáit a choginio bisgedi Dwynwen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac erbyn diwedd y cyfnod maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o strategaethau i ddatrys problemau mathemategol. Maent yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed a chan ddefnyddio geirfa fathemategol yn naturiol. Er bod medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, nid ydynt yn eu trosglwyddo yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae'r nifer fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 dros nifer o flynyddoedd yn golygu nad yw'r data yn ddibynadwy. O ganlyniad, nid yw'n deg cymharu perfformiad meincnod yr ysgol ag ysgolion tebyg na chyfartaleddau cenedlaethol, ac ni ellir adrodd ar dueddiadau mewn perfformiad dros gyfnod heb adnabod unigolion. Fodd bynnag, teg yw adrodd bod perfformiad yr ysgol yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg ar y lefelau disgwylidig yn y mwyafrif o feysydd dros bedair blynedd. Nid yw hynny mor wir ar y lefelau uwch.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn rhy fach ym mhob carfan dros bedair blynedd i allu cymharu eu perfformiad yn ystyrlon gyda'r gweddill.

Dros gyfnod o dair blynedd yn y Cyfnod Sylfaen a phedair blynedd yng nghyfnod allweddol 2, nid oes patrwm clir o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn o gymharu â merched.

Lles: Da

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn. Dangosant barch a gofal tuag at eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn arddangos dyfalbarhad cyson yn y gwersi, gan adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol. Mae gallu llawer i weithio'n annibynnol yn datblygu'n dda ac mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn ofalgar dros y disgyblion iau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth briodol o'r angen i ddatblygu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd, yfed a bwyta'n iach. Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyingor.

Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cynnwys grwpiau brwdfrydig o ddisgyblion sy'n cyfrannu'n llwyddiannus i ddatblygu agweddau cadarnhaol at gadw'n iach yn yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi sefydlu Clwb Dal i Fyny i gynyddu ffitrwydd ac ehangu'r dewis o ffrwythau sydd ar gael i'w prynu yn siop yr ysgol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn sicrhau bod gan ddisgyblion ffyrdd effeithiol o leisio barn. Maent yn trefnu gweithgareddau i gefnogi gwaith elusennol a chaiff hyn

effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion bobl eraill; er enghraifft casglwyd swm sylweddol o arian tuag at ymgyrch trychineb Nepal yn ddiweddar. Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned a cheir cyswllt cryf gyda llawer o sefydliadau ac unigolion. Enghraifft o hyn yw'r ymweliadau cyson â chartref yr henoed. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r profiadau hyn ac yn datblygu ystod o fedrau cymdeithasol a moesol yn briodol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o weithdrefnau cadarn yr ysgol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb. Mae cyfartaledd presenoldeb yr ysgol wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion eraill dros y tair blynedd diwethaf.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn gadarn. Maent yn cynnwys cyfleoedd priodol i ddatblygu'r medrau allweddol, ac yn ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol.

Mae cydgynllunio gydag ysgolion lleol yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion rhannu profiadau gyda chyfoedion ysgolion cyfagos. Mae'r cyfleoedd pontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad rhesymu rhifol a Saesneg, ac yn darparu ar gyfer lles disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am Gymru a'r iaith Gymraeg yn gadarn iawn. Caiff ddisgyblion gyfleoedd cyson i astudio hanes lleol, a hanes bywyd a gwaith Cymry enwog. Er enghraifft, arweiniodd astudiaeth o chwedlau a hanesion lleol at waith celf cywrair o dan arweiniad artistiaid lleol. Mae ystod o ymweliadau â manau diddorol, holi ymwelwyr a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd da iddynt gyfrannu yn eu cymuned ac yn genedlaethol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, fel gweithgareddau'r Urdd, cyngherddau lleol a digwyddiadau yn y capel. Mae hyn yn ehangu eu dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth, ac yn gymorth iddyn nhw ddeall eu rôl o fewn y gymuned ac i werthfawrogi'r ardal leol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu disgyblion am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol. Mae cyngor eco'r ysgol yn trefnu gweithgareddau ailgylchu helaeth ac yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth disgyblion eraill o'u cyfrifoldeb wrth edrych ar ôl yr amgylchedd.

Addysgu: Da

Mae'r athrawon yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymhell disgyblion i ddysgu yn y rhan fwyaf o wersi.

Mae cyflwyniadau a chyfarwyddiadau'r athrawon yn glir, ac mae strwythur cadarn i'r gwersi yn sicrhau bod disgyblion yn gallu ymateb yn llwyddiannus i'w tasgau. Mae cyflymder addas i'r addysgu ac mae'r athrawon a chymorthyddion yn cynnal a chefnogi disgyblion mewn modd sy'n hybu annibyniaeth yn dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir gyda dysgu blaenorol. Mae'r staff yn fodolau iaith da iawn ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn efelychu a defnyddio iaith yn effeithiol ac yn hyderus. Mae'r athrawon i gyd yn deall anghenion eu disgyblion yn dda iawn. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, nid ydynt yn darparu digon o weithgareddau sy'n herio disgyblion uchaf eu gallu.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu gwersi. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant ac yn defnyddio canmoliaeth yn dda iawn i annog y disgyblion llai hyderus i wneud cynnydd priodol. Mae'r disgyblion yn elwa o'r ffaith fod eu hathrawon yn trafod ansawdd eu gwaith mewn modd sensitif ac adeiladol. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio'n rheolaidd a rhoddir sylwadau adeiladol ar fwyafrif yr ymdrechion, ond nid yw athrawon yn talu digon o sylw i dargedau personol y disgyblion wrth farcio eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn deall anghenion eu disgyblion yn dda ac, ar y cyfan, yn gwahaniaethu'n briodol er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Mae rhieni a gofalmwyr yn derbyn gwybodaeth dda iawn am gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ystod eang a rheolaidd o fentrau addas sy'n annog hyn, yn ogystal â chyfleoedd eang i hybu ymarfer corff. Caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei gefnogi'n effeithiol trwy wasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan, ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae gweithdrefnau cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb yn gadarn a chaiff hyn ei adlewyrchu yn lefelau presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion.

Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol ac mae'r disgyblion yn elwa o'r gynhaliach hon. Mae'r staff yn monitro lles disgyblion yn dda iawn ac yn gweithredu'n gyflym ac yn sensitif mewn ymateb i bryderon.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae cynlluniau priodol yn cael eu darparu er mwyn ceisio mynd i'r afael â gofynion penodol unigolion. Mae'r broses hon yn cynnwys y rhieni a'r disgybl yn effeithiol. Mae'r cymorthyddion yn cyfrannu'n fuddiol at gyfoethogi profiadau dysgu a lles cyffredinol y disgyblion. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gwerthuso unrhyw gynnydd yn rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus ble mae'r disgyblion yn mwynhau eu profiadau addysgol.

Mae'r ysgol yn hybu ac adlewyrchu ethos cynhwysol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus. Mae staff yn llwyddo yn eu hymdrechion i gynnwys pob disgybl mewn amrywiaeth o weithgareddau fel mabolgampau'r Urdd a chystadlaethau amrywiol.

Mae'r ysgol wedi datblygu ardaloedd mewnol yr adeilad yn effeithiol gydag amrywiaeth helaeth o arddangosfeydd lliwgar a chreadigol sy'n creu amgylchedd dysgu diddorol ac ysgogol. Caiff llwyddiannau a gwaith y disgyblion eu harddangos yn raenus. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o adnoddau safonol sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Defnyddia'r ysgol yr adnoddau allanol yn effeithiol. Mae tir yr ysgol yn eang gydag offer sy'n annog chwarae a ffitrwydd y disgyblion yn dda, er enghraifft y wal ddringo. Mae adran gysgodol allanol y Cyfnod Sylfaen yn briodol ac yn cysgodi ystod o offer defnyddiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau ar gyfer hylendid yn briodol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac mae'n llwyddo i'w rhannu'n effeithiol gyda holl randdeiliaid yr ysgol. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar yr egwyddor o 'sicrhau addysg o'r ansawdd orau posib i bob plentyn yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u diddordebau'. Mae'r pennaeth yn cydweithio'n effeithiol gyda'r staff cyfan i greu amgylchedd cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar godi safonau'r addysgu a'r dysgu. Gyda chefnogaeth y llywodraethwyr a'r staff, mae'r pennaeth wedi adnabod blaenoriaethau gwelliant a darparu cyfeiriad strategol effeithiol i waith yr ysgol. O ganlyniad, mae safonau'r addysgu, y dysgu a lles disgyblion yn gadarn.

Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swyddi cyfredol, ac mae eu cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol mewn perthynas â chynlluniau a chyfeiriad yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar wella safonau ac yn cefnogi cyfathrebu effeithiol ymysg unigolion.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r staff yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol yn eu cynllunio ac yn ymateb yn briodol i amddifadedd disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae'r aelodau yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am gryfderau, unrhyw ddiffygion a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion eraill. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i adolygu ei pherfformiad drwy deithiau dysgu, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol yn datblygu'n dda. Mae sylwadau gwerthfawr yr aelodau yn dilyn gweithgareddau monitro wedi dylanwadu ar gynlluniau'r ysgol i ymateb i danberfformiad mewn agweddau o ddarllen a rhifyddeg pen yn llwyddiannus.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hunan arfarnu, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o agweddau ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad, gwaith disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn fanwl fel rhan o'i rhaglen fonitro. O ganlyniad, maent yn canfod cryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella yn effeithiol. Mae gan yr ysgol drefniadau addas i gynnwys y staff addysgu yn y broses hunan arfarnu ac mae cyfleoedd addas i rieni a disgyblion gyfrannu barn ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o'r hunan arfarniad yn effeithiol i gynhyrchu cynllun datblygu. Mae gan y cynllun hwn ffocws clir ar wella safonau'r addysgu a'r dysgu. Mae'n cynnwys amrediad addas o gamau gweithredu i sicrhau gwelliant, ynghyd â gwybodaeth briodol am gostau ac amserlen gweithredu. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyswllt effeithiol rhwng blaenoriaethau'r cynllun datblygu a datblygiad proffesiynol parhaus y staff. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi llwyddo i ymateb yn gadarnhaol i rai blaenoriaethau, fel codi safonau asesu a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn diffinio'r targedau yn ddigon manwl. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i werthuso effaith y gweithredu yn llawn.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae partneriaeth glos ac effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cynorthwyo yn ei gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'i chymuned. Mae trigolion yr ardal wedi sefydlu Oriol Hiraethog yn yr ysgol sy'n arddangos amrediad o luniau safonol gan artistiaid o Gymru. Mae hyn yn cyfoethogi gwerthfawrogiad y disgyblion o waith artistiaid lleol.

Mae partneriaeth weithio dda yn bodoli rhwng yr ysgol â sefydliadau cyn-ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol.

Mae ystod ac ansawdd trefniadau trosglwyddo'r disgyblion hyn i'r ysgol uwchradd yn dda hefyd. Mae'r staff yn eu paratoi'n drylwyr at y cam nesaf yn eu haddysg. Mae prosiectau pontio gyda'r ysgol uwchradd leol ar agweddau fel cysondeb mewn marcio ac ymateb i waith wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion cynradd lleol eraill a'r ysgol uwchradd i gymedroli asesiadau athrawon o waith disgyblion cyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae asesiadau athrawon wedi cryfhau ac maent yn gadarn.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cryf gydag ysgolion eraill y dalgylch dros gyfnod o flynyddoedd. Ar y cyd, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gydweithio â chyfoedion mewn ysgolion eraill lleol. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr yn gymdeithasol o'r cyfleoedd hyn gan nad oes ond ychydig ohonynt mewn blwyddyn ysgol.

Mae clwstwr ysgolion 'Y Lon Bost' yn rhannu arfer dda ac arbenigeddau, ac yn cynhyrchu adnoddau defnyddiol ar gyfer y disgyblion; er enghraifft, adnoddau ymarferol ar gyfer datblygu rhifedd. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion rannu eu gwaith llafar ac ysgrifennu Saesneg gyda'u cyfoedion mewn ysgolion lleol eraill ar y thema 'Pencampwyr'. Mae hyn yn gymorth i ddisgyblion hŷn yr ysgol ddatblygu eu medrau Saesneg yn effeithiol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff addysgu ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyflwyno gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Defnyddir cymorthyddion yn effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion a grwpiau penodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol y staff. Mae hefyd yn ymateb yn llawn i ofynion statudol lleihau baich gwaith athrawon. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu cynnydd disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni ei hamcanion a'i blaenoriaethau yn effeithiol. Mae cymunedau dysgu proffesiynol ar waith gydag ysgolion lleol eraill, sy'n canolbwyntio ar gydgyllunio gweithgareddau rhifedd a llafaredd Saesneg. Mae cydweithio ag ysgolion lleol ac all-sirol tebyg wedi gwella gweithdrefnau asesu'r ysgol yn ddiweddar.

Mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau ac fe'u rheolir yn dda i gefnogi'r dysgu. Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn effeithiol i fodloni'r blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun datblygu. Mae defnydd priodol o gyfraniadau ariannol gan gyfeillion yr ysgol yn ychwanegu at y cyllid ac yn cyfoethogi'r ystod o adnoddau a'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol i leihau'r gwagedd sylweddol yn y gyllideb trwy sicrhau gwelliannau i'r adeilad.

O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	responses Nifer o	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	disagree Anghytuno'n Don't know	Ddim yn awwbod	
Overall I am satisfied with the school.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	25%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	10	7 70%	3 30%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	10	5 50%	5 50%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		46%	45%	4%	1%		
Teaching is good.	10	8 80%	2 20%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	33%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	10	7 70%	3 30%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	33%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	10	8 80%	2 20%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		

	responses Nifer o	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	disagree Anghytuno'n	Don't know Ddim yn awwbod	
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	10	8 80%	2 20%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
I am kept well informed about my child's progress.	10	7 70%	3 30%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	10	3 30%	7 70%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	10	7 70%	3 30%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	10	6 60%	3 30%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
There is a good range of activities including trips or visits.	10	7 70%	3 30%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
The school is well run.	10	10 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Eifion Lloyd Watkins	Arolygydd Cofnodol
Meleri Cray	Arolygydd Lleyg
Geraint Wyn Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Ann E Jones	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.